



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

7 Mehefin 2019

9:00 yb to 12:30 yp

Optic, Llanelwy

Yn bresennol: Teresa Owen (Cadeirydd), Alwyn Jones, Charlotte Walton, Cyng Bobby Feeley, Cyng Christine Jones, Cyng Joan Lowe (JLo), Cyng Dafydd Meurig (yn bresennol tan 12:00 pm), Dave Worrall, Jennie Lewis (JLe), Kate Devonport (yn bresennol ar ran Jenny Williams), Kevin Roberts, Llinos Medi Huws (yn bresennol tan 10:00 am), Roma Hooper (yn bresennol ar ran Lynda Colwell), Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Nicola Stubbins, Sacha Hackett, Shan Lloyd Williams, Wendy Jones. Maria Bell – yn bresennol ar ran Bethan Jones Edwards

Ymddiheuriadau: Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Chris Stockport, Cyng Liz Roberts, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Jenny Williams, Judith Greenhalgh, Lynda Colwell, Marian Wyn Jones, Peter Williams, Lesley Singleton, Richard Weigh, Rob Smith, Mark Wilkinson (MWil), Bethan E Jones, Clare Budden, Bethan Jones.

Hefyd yn bresennol: Jo Taylor, Rheolwr Gwasanaeth CSFf, Anabledd, Cynnydd a Gwelliant (ar gyfer eitem 6 ar yr agenda)
Alan Hughes, Rheolwr Rhaglen WCCIS Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 7 ar yr agenda)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Cyflwynodd pawb ei hun a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnwyd croeso cynnes i Sacha Hatchett, Prif Gwnstabl Cynorthwyol o Heddlu Gogledd Cymru yn disodli Neill Anderson.

2 Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 10 Mai fel rhai cywir.

Camau gweithredu a gwblhawyd:

- Dosbarthwyd cyflwyniad BARhGC i aelodau BPRhGC

- Dosbarthwyd cysylltiadau i Fargen Twf a Gweledigaeth Twf BUEGC i aelodau BPRhGC
- Mae'r dyddiad cau ar gyfer rhoi adborth i'r Adroddiad Blynyddol bellach wedi mynd heibio.
- Mae trafodaethau o ran is-gadeirydd ar agenda heddiw.

Camau gweithredu sy'n weddill:

- Enwau swyddogion ALI sy'n ymwneud â Gwerth Cymdeithasol fel rhan o'u rôl - mae hyn wedi'i gwblhau'n rhannol, gydag ambell enw eto i ddod i law.
- Iwan Trefor Jones i ddarparu gwybodaeth am y tîm sefydledig yn Sir Ddinbych sy'n edrych ar gysylltedd ffibr yn y rhanbarth.
- Bydd yr ICF ar agenda BPRhGC mis Gorffennaf.

Cadarnhaodd TO bod cais MWim ar setliad CHC o fewn BCU yn mynd rhagddo.

Camau Gweithredu

- RW i fynd ar drywydd yr enwau sy'n weddill ar gyfer Gwerth cymdeithasol.
- Agenda Gorffennaf – RW

3 Diweddariad o adrodd i'r cyfarfod Prif Weithredwyr Traws-Sector 31.05.2019

Adroddodd TO ar fynychu'r cyfarfod Prif Weithredwyr Traws Sector gyda BJE i adrodd ar adolygiad llywodraethu Gogledd Cymru, y datganiad sefyllfa a gwaith yr RPB am y 6 mis diwethaf. Roedd hwn yn gyfarfod cadarnhaol gyda'r Prif Swyddogion Gweithredol yn cydnabod y gwaith sylweddol sy'n cael ei gyflawni ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am weledigaeth y BPRh yn y dyfodol tymor canolig i hirdymor, a gwahoddir TO a BJE eto ymhen 6 mis i ddarparu'r diweddariad hwn.

Rhoddodd TO wybod am wahoddiad gan y Dirprwy Weinidog i gwrdd â phob un o 7 cadeirydd RPB Cymru ac arweinwyr rhanbarthol ar 3.07.2019. Bydd TO yn mynychu gyda BJE ac yn darparu adborth yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Grant LIC i gefnogi gwaith RPB

Rhoddodd TO wybod am lythyr cynnig grant a dderbyniwyd gan LIC, £60K y flwyddyn am ddwy flynedd, i gefnogi swyddogaeth perfformiad a gwerthuso ehangach yr RPB. Bydd TO yn rhinwedd ei swydd fel cadeirydd yn llofnodi ar ran BPRhGC a bydd BJE yn anfon ymlaen at LIC.

Camau Gweithredu

- TO a BJE i adrodd yn ôl yn dilyn cyfarfod nesaf gyda'r Prif Weithredwyr.
- Adborth o'r cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog ar agenda Gorffennaf - RW
- TO i arwyddo llythyr cynnig grant LIC a BJE i'w anfon ymlaen at LIC

4 Adroddiad Blynyddol BPRhGC

Mae'r cynllun drafft terfynol yn cael ei gyflwyno heddiw gyda chyfleoedd i wneud newidiadau a diwygiadau terfynol.

Adroddodd TO am sylwadau hwyr gan BIPBC i'w cynnwys yn yr adroddiad. Bydd y drafft terfynol yn cael ei gyfieithu a'i anfon ymlaen at LIC erbyn diwedd Mehefin. Bydd yr adroddiad, ar ôl ei gwblhau, hefyd ar gael ar wefan Cydweithredu Rhanbarthol, gan roi mynediad i asiantaethau at wybodaeth am yr holl waith a gwblhawyd gan y BPRhGC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Nododd Cyngorydd DM, fel aelod o'r bwrdd a benodwyd yn ddiweddar, ei fod yn ystyried yr adroddiad yn ddogfen werthfawr, yn rhoi gwybodaeth am waith eang y BPRhGC, tra ychwanegodd DW fod yr adroddiad yn egluro gwaith y bwrdd yn gryno ac yn defnyddiol i'r trydydd sector.

Dywedodd y Cyng. LIMH y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno trwy'r System Graffu yn IACC, gan ei fod yn adroddiad i'r ALI yn ogystal â'r cyhoedd.

Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau pellach a chymeradwywyd yr adroddiad drafft gan y Bwrdd. Bydd yr adroddiad blynyddol terfynol wedi'i gwblhau:

1. Wedi'i anfon ymlaen at LIC erbyn diwedd Mehefin
2. Wedi'i ddsbarthu i bob ALI, i'w gylchredeg i aelodau ALI.
3. Yn cael ei gyflwyno i'r Prif Swyddog Gweithredol Traws-sector.

Camau Gweithredu

- Cyfieithu sylwadau BIPBC i'w cynnwys yn yr adroddiad- TO
- Yr adroddiad terfynol i'w ddsbarthu i bob partner i'w gylchredeg - RW.
- TO i gysylltu â BJE i gymeradwyo'r adroddiad

5 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn gyntaf, adroddodd TO ar gyfarfod cynhyrchiol diweddar a gynhaliwyd gyda BJE a chynrychiolwyr y Trydydd Sector, DW, a LC i drafod cynrychiolaeth y Trydydd Sector ar y BPRhGC a'r ffordd ymlaen i sicrhau bod y Trydydd Sector yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol fel rhan o'r drafpdaeth rhanbarthol yn y maes hwn.

Adroddodd DW ar yr adroddiad y canfyddiadau allweddol gan Dr Sally Rees (Swyddog Prosiect Grant Cyflawni Trawsnewid, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), yn dilyn cyfweiliadau â phob cadeirydd RPB, aelodau RPB y Trydydd Sector ac ychydig o arweinwyr rhanbarthol yng Nghymru:

- Y gwahaniaeth rhwng RPB ledled Cymru; gan gynnwys yr amrywiad yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer pob rhanbarth.

- Yr ôl-troed sylweddol yng Ngogledd Cymru (6 ALI ac un Bwrdd Iechyd), a'r nifer cynyddol o aelodau ar y bwrdd yn her sylweddol i drafodaethau effeithiol y Bwrdd.
- Thema generig oedd maint y papurau bwrdd a dderbyniwyd cyn pob cyfarfod.
- Yng Ngheredigion mae'r cynrychiolydd Trydydd Sector hefyd yn aelod o'r Grŵp Arweinyddiaeth.

Y casgliad cyffredinol, er bod 2 flynedd ers ei sefydlu, yw bod y BPRh yn dal yn newydd iawn ac yn esblygu.

Nododd DW ei siom bod CGGC yn tynnu'n ôl y gefnogaeth i weithdy cymheiriaid RPB y Trydydd Sector gan ei fod yn gweld gwerth am gefnogaeth barhaus i'r Trydydd Sector.

Pwysleisiodd MWim bwysigrwydd cael gwahanol leisiau o amgylch y bwrdd, yn hytrach na lleisiau sector penodol yn unig, gan mai rôl y BPRhGC oedd darparu arweinyddiaeth ar y cyd.

Ychwanegodd BF ei bod yn teimlo fod ffocws ar ALI yn y BPRhGC ac awgrymu sesiynau datblygu er mwyn sicrhau bod pob sector/llais yn cael eu clywed.

Diolchodd TO i DW am y diweddariad a nododd y canfyddiadau ac awgrymodd hefyd y dylid trefnu cyfarfod dilynol gyda'r Trydydd Sector a WJ ymhen 3 mis ar gyfer trafodaeth "camau nesaf".

Camau Gweithredu

- RW i drefnu cyfarfod ym mis Medi.

6 Diweddariad ar yr ymateb rhanbarthol ar yr Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar gyflenwi Gwasanaeth Awtistiaeth

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan Jo Taylor ar ddatblygiad y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth.

Dywedodd JT fod Mesur Awtistiaeth wedi'i gyflwyno, ei drafod a'i wrthod wedi hynny yn gynnar yn 2019 o blaid Cod Ymarfer yn ymgorffori gofynion ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Bydd rhan allweddol y CY yn codi ymwybyddiaeth o hawliau unigolion, gan ganolbwyntio ar:

- Asesu a diagnosis
- Trefniadau ar gyfer gofal a chymorth
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant
- Cynllunio, Monitro a Chynnwys Rhanddeiliaid

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1.3.2019 a derbyniwyd 65 o ymatebion ysgrifenedig. Bydd yr adroddiad ymgynghori gorffenedig yn cael ei gyhoeddi maes o law. Mae ymgynghoriadau/digwyddiadau pellach yn cael eu cynnal a'r bwriad yw cael Cod Ymarfer drafft erbyn mis Rhagfyr 2019, i'w gyhoeddi erbyn Rhagfyr 2020.

Holodd JO am statws Hyrwyddwr Awtistiaeth BPRhGC.

Nodwyd y trafodwyd hyn yn y BPRhGC ym mis Medi 2018, a gofynwyd I ALLau nodi hyrwyddwyr eisioes.

Cadarnhaodd JT y bydd angen ystyried yr adroddiad ymgynghori terfynol, ar ôl ei ddrafftio, o ran disgwyliadau / gofynion gan aelodau BPRhGC, ac mae'n gobeithio y bydd cyfle i gael trafodaeth bellach yn y dyfodol.

Holodd JL am yr amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosis (Oedolion).

Cadarnhaodd JT yr uchafswm amser o 26 wythnos ar gyfer asesu. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) wedi etifeddu cleifion hanesyddol ac maent yn anelu at leihau'r amser aros presennol i 26 wythnos.

Nododd NS fod plant yn cael eu hasesu drwy'r gwasanaeth datblygu niwrolegol a darparodd ffigurau a rannwyd yng nghyfarfod mis Mai y Rhaglen Trawsnewid Plant, gan nodi amseroedd aros sylweddol.

Cadarnhaodd JT y bydd uchafswm amser aros yn cael ei gynhyrchu yn y CY ar gyfer asesiad ar gyfer diagnosis ac yn cael ei fonitro drwy LIC.

Trafodwyd darpariaeth gwasanaethau gofal yn y gymuned hefyd.

Eitem agenda / sesiwn gweithdy posibl ar gyfer y dyfodol i drafod perfformiad ac effaith y Cod.

Diolch TO i JT am yr adroddiad cryno ac awgrymodd

1. Sesiwn hyfforddi yn y dyfodol i gynorthwyo ymhellach pan fydd yr adroddiad drafft wedi'i gwblhau.
2. Eitem agenda/gweithdy arfaethedig yn y dyfodol i drafod perfformiad ac effaith y Cod, pan fydd manylion pellach ar gael.

Camau Gweithredu

- JT i gynghori RW ar yr amserlen i ddod yn ôl i'r BPRhGC

7 Diweddariad Rhanbarthol WCCIS

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan Alan Hughes ar weithgareddau gwaith cenedlaethol a rhanbarthol WCCIS.

Diweddariad cenedlaethol:

- Mae strwythur llywodraethu diwygiedig wedi'i gymeradwyo gan y grŵp arweinyddiaeth cenedlaethol.
- Mae gwaith ar y gweill gyda'r cyflenwr CareWorks - ar adnabod atebion i ddiffygion a sut y caiff y rhain eu cyflawni - gofyniad allweddol i BIPBC.
- Mae defnyddiwr PARIS, Abertawe, yn bwriadu cael ei weithredu ym mis Ionawr 2020.
- Mae ABUHB wedi cyhoeddi rhybudd oedi oherwydd nad yw'r feddalwedd yn darparu'r rhyngwynebau priodol gyda Gofal Cynradd, yn ôl y gofyn.

Diweddariad rhanbarthol:

- Mae BJ wedi'i phenodi'n gadeirydd Bwrdd Rhaglen Ranbarthol WCCIS Gogledd Cymru. Nodwyd y meysydd blaenoriaeth canlynol:
 - Adolygu'r Cylch Gorchwyl a'r aelodaeth
 - Alinio WCCIS â Gofal yn Agosach ar y Cartref
- Mae cynlluniau ar y gweill i nodi ardaloedd synhwyrol i brofi WCCIS, gan ddefnyddio cyllid CGI cytunedig o fewn CRT. Bydd hyn yn cael ei weld fel man cychwyn a bydd y glasbrint wedyn yn cael ei gymhwyso i ardaloedd eraill.

Bydd prototeip yn cael ei dreialu yn y 12 mis nesaf yn y Gorllewin, sydd eisoes yn fyw ar WCCIS, a bydd CSDd, CSFf a CBSW hefyd yn ymwneud â'r gwaith hwn.

Pwysleisiodd yr aelodau arwyddocâd y Rhaglen Drawsnewid ar draws Gogledd Cymru a rôl bwysig WCCIS o fewn y pedair rhaglen.

Hysbysodd RH fod gan staff y sector gwirfoddol sy'n gweithio mewn timau amlddisgyblaethol eu cofnod data eu hunain, gan greu dyblygu ar draws asiantaethau.

Cadarnhaodd AH fod asiantaethau partner yn cydnabod y mater hwn ac mae un system cofnodi data yn cael ei hystyried. Y rhwystrau mwyaf i'w goresgyn yw materion technegol, rhwydweithiau yn ogystal â pholisïau.

Adroddodd MWim o berspectif darparwr o'r risg o bobl yn cael eu hail-dderbyn yn ôl i'r ysbyty yn ddiangen oherwydd gwybodaeth am gleifion a ohirirwyd wrth gael eu rhyddhau.

Cadarnhaodd AH fod hyn yn cael ei drafod yn eang.

Gofynnodd y Cynghorydd BF am y canlyniad ar gyfer y partneriaid hynny nad oes ganddynt gynlluniau ffurfiol i gofrestru ar gyfer WCCIS, oherwydd cyfyngiadau amser a staff, a goblygiadau cost.

Cadarnhaodd AH nad yw WCCIS yn orfodol a bydd trafodaethau yn parhau yn y cam nesaf. Nododd AH fod costau trwydded presennol yr ALI yn unol â systemau presennol.

Diolchodd TO i AH am y diweddariad a nododd y cynnydd parhaus a darperir diweddariad pellach yn Hydref 2019.

Camau Gweithredu

- AH i roi'r wybodaeth ddiweddaraf eto Tachwedd/Rhagfyr 2019 - RW

8 Cyllidebau Cyfun

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan NS ar gyllidebau cyfun rhanbarthol.

Manteisiodd TO ar y cyfle i ddiolch i swyddog A151 CSDd Richard Weigh am yr holl waith a gwblhawyd ar y Gyllideb Gyfun ddi-risg ar gyfer darpariaeth Cartrefi Gofal ar draws y rhanbarth, a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

Yn dilyn yr ymgynghoriad a'r newidiadau i Ganllawiau Statudol Rhan 9, mae swyddogion cyllid ar draws y rhanbarth wedi cytuno i ddilyn model cyllideb gyfun Caerdydd a'r Fro, yn seiliedig ar y gwariant amcangyfrifedig ar gyfer y chwarter nesaf a gwariant amcangyfrifedig blwyddyn lawn.

Cytunwyd y bydd CSDd yn cynnal y gronfa ac mae Bwrdd Iechyd Lleol Gogledd Cymru wedi cytuno y gall swyddogion yn y rhanbarth symud ymlaen i'r cam nesaf o drosglwyddo arian a datblygu cytundeb Adran 33, i'w lofnodi gan bob un o'r partneriaid. Unwaith y bydd y cytundeb Adran 33 wedi'i gwblhau, bydd pob partner yn gyfrifol am wneud hyn drwy ei broses wleidyddol a darperir amserlenni yn y diweddariad nesaf.

Cododd MWim bryder gan fod y model cyllidebau cyfun di-risg wedi hwyluso taliadau rheolaidd i gartrefi gofal, ac roedd yn dymuno i hyn gael ei ystyried wrth i newidiadau a chynnydd gael eu gwneud.

Cadarnhaodd NS nad yw'r model diwygiedig yn gwneud unrhyw newidiadau rhagweladwy i daliadau i gartrefi gofal, ac nid oes unrhyw gynlluniau i newid prosesau talu sydd ar waith ar hyn o bryd.

Cytunodd y Bwrdd i nodi'r adroddiad, gyda diweddariad pellach i'w ddarparu yn y dyfodol.

Camau Gweithredu

- ALLau a BIPBC i gymeryd dogfen S33 trwy eu proses wleidyddol eu hunain.

9 Adroddiad Ymgysylltu Gogledd Cymru

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan MB ar Adroddiad Ymgysylltu Gogledd Cymru.

Ymgwymerwyd ag adolygiad o weithgarwch ymgysylltu yng Ngogledd Cymru fel un o ofynion Grant Hwyluso Rhanbarthol Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r adroddiad yn crynhoi ystod o ffyrdd y gall unigolion a gofalwyr ddweud eu dweud am wasanaethau gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru. Cyhoeddir yr adroddiad ar y wefan Cydweithredu Rhanbarthol a chafodd dderbyniad da gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Croesawodd TO y ddogfen a diolchodd i bawb sydd wedi bod yn rhan o greu'r ddogfen hon.

Cadarnhaodd SH, ar ran HGC, y caiff yr adroddiad ei ddsbarthu i Arolygwyr Ardal ar gyfer trafodaeth persbectif ymgysylltu HGC a chyfleoedd croesi drosodd.

Nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol adeiladu ar yr adroddiad hwn y flwyddyn nesaf a sicrhau bod pawb yn rhan o'r gwaith o greu'r ddogfen.

Diolchodd y cadeirydd i Sarah Bartlett am y darn gwaith defnyddiol hwn a chydunodd y BPRhGC i nodi'r ddogfen.

10 Adroddiad Tâl Gofalwyr

Debyniodd y Bwrdd ddiweddariad gan MB ar yr arfarniad opsiynau ar gyfer cydnabyddiaeth aelodau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr y BPRHGC a gomisiynwyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth. Y dewisiadau i'w hystyried oedd:

1. gwneud dim
2. cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gynnig TIDE ar gyfer talu gofalwyr
3. talu lwfans sy'n gysylltiedig â thâl cyfetholwyr â pleidlais Pwyllgorau Awdurdodau Lleol
4. tâl drwy gyfrwng credyd amser – cynllun bancio amser

Ystyriwyd amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cynlluniau tebyg eraill, effeithiau ar dreth ac Yswiriant Gwladol. Ceisiwyd cyngor hefyd gan y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu a chan gynllun Integreiddio Partneriaeth LIC.

Argymhelliad y Grwp Arweinyddiaeth oedd y dylid ystyried opsiwn 4.

Dechreuodd y drafodaeth gyda JLe gan nodi ei bod yn gwerthfawrogi bod yr BPRhGC yn edrych ar y mater. (Nododd yr aelodau fod y mater hwn yn hir-sefydlog). Fodd bynnag, amlygodd JLe nad oedd cynrychiolwyr gofalwyr wedi cael eu cynnwys nac wedi ymgynghori arnynt yn y broses hon.

Ystyriodd WJ a roddwyd digon o ystyriaeth i'r holl opsiynau, a nododd fod opsiwn 4 yn ymddangos yn symbolaidd, ac na allai gefnogi'r argymhelliad, tra bod DW yn nodi ei siom nad oedd dull cyd-gynhyrchu wedi'i defnyddio yma, ac wrth symud ymlaen gallai'r BPRhGC wella ar hyn. Yn yr un modd, teimlai'r cynghorydd DM y byddai ymgysylltu â chynrychiolwyr gofalwyr ar yr BPRhGC yn ddefnyddiol ac y dylid adolygu'r papur gyda mewnbwn gan y gofalwyr.

Cydnabodd TO y sylwadau hyn ac er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith, awgrymwyd y gallai'r BPRhGC dreialu'r opsiwn bancio amser gyda'r bwriad o gynnal adolygiad yn y dyfodol.

Myfyriodd JLe ar faterion tegwch o fewn y dull hwn ac roedd am gofnodi, ar ran gofalwyr (yn hytrach nag fel unigolion), na fyddai gan ofalwyr yr amser efallai i ymgymryd â'r gweithgareddau a gynigid drwy gynllun bancio amser, o ystyried eu hymrwymiaid gofalu.

Cadarnhaodd NS, fel aelod o LG, fod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r holl opsiynau, ac roedd yn adlewyrchu ar y costau cyfle amrywiol i'r holl aelodau a oedd yn bresennol yn yr BPRhGC. Cadarnhaodd NS hefyd nad oedd unrhyw arian ar gael ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau a nodir ar hyn o bryd, ond roedd yr holl ALLau a'r BI wedi ymrwmo i ddod o hyd i'r arian ar gyfer Opsiwn 4 fel cam ymlaen i fynd i'r afael â'r mater. Dywedodd AJ fod ymagwedd bragmatig wedi'i mabwysiadu o gofio bod y banc amser yn cael ei ddefnyddio mewn rhai sectorau, ond nododd nad oedd efallai yn ddull addas i bawb.

Nododd JLe yr opsiwn i wneud dim byd, ac ystyriodd yr heriau iddi hi (neu unrhyw ofalwr arall) yn ei rôl wirfoddol, i gyfrannu i'r BPRhGC mor llawn ag y byddai'n dymuno, o ystyried y gofynion o ran amser.

Ni ellid dod i gonsensws ar unrhyw un o'r pedwar opsiwn. Crynhodd TO fod angen sgwrs/trafodaeth gyda'r sector gofalwyr, fel y gellid cyflwyno papur newydd i'r BPRhGC i'w gwneud yn bosibl i safbwyntiau gael eu cipio'n llawn, gan gynnwys gan aelodau'r BPRhGC nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod ar y diwrnod.

Cytunodd y Bwrdd y dylid gofyn i'r Grwp Arweinyddiaeth ystyried y papur eto, ac y dylid casglu ac ystyried barn y cynrychiolwyr gofalwyr.

Diolchodd TO i'r aelodau am eu sylwadau agored ac adeiladol ar yr hyn a fu ac sy'n fater hir-sefydlog i'r BPRhGC

Camau Gweithredu

- TO a BJE i drafod ymhellach.

11 Proses ar gyfer Enwebu a Chytuno ar Is-gadeirydd y BPRhGC

Nododd TO yr angen i gytuno ar is-gadeirydd yn unol â'r Cylch Gorchwyl. Fel y nodwyd yn y Cylch Gorchwyl, bydd aelodau'r RPB yn ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau p'un a yw'r aelod hwn yn aelod gofynnol neu'n gyfetholedig. Gofynnodd TO am enwebiadau gan y grwp anstatudol/eraill. Cwestiynwyd yr elfen hon, ond tynnodd aelodau sylw at y ffaith na all y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gynrychioli'r un sefydliad a bydd yn cylchdroi ar draws y sectorau - ALI, BIPBC ac Anstatudol (n y drefn honno).

Gofynnir i aelodau anstatudol enwebu eu hunain neu enwebu aelodau (gyda'u cytundeb) ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd erbyn dydd Mawrth 9 Gorffennaf. Bydd yr enwebiadau yn cael eu hanfon ymlaen i gadeirydd BPRhGC a Phennaeth Cydweithredu Rhanbarthol drwy e-bost.

Bydd proses enwebu a chytuno ar yr Is-gadeirydd yn cael ei thrafod ymhellach yn y BPRhGC nesaf, a bydd yn cael ei gweithredu yn dibynnu ar nifer yr enwebiadau a dderbynnir h.y. os mai dim ond un enwebiad sydd, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi hyn. Os oes nifer o enwebiadau, cynhelir pleidlais gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y cyfarfod.

Bydd Cylch Gorchwyl BPRhGC hefyd angen cael ei adolygu a'i ddiweddarau gyda throafodaeth yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Camau Gweithredu

- Anfon enwebiadau ymlaen at y Cadeirydd a'r Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol erbyn 9.7.19
- Pross ar gyfer enwebu a chytuno ar Is-Gadeirydd ar agenda - Gorffennaf - RW
- Cylch Gorchwyl ar agenda Gorffennaf- RW

12 Unrhyw Fater Arall

Penblwydd Cymru Iachach. I nodi blwyddyn ers lansiad Cymru Iachach mae LIC wedi trefnu wythnos ffocws (9 - 14 Mehefin) ar gyflawniadau hyd yn hyn a cynnydd system gyfan. Bydd y gweithgareddau yn bennaf trwy hysbysiadau yn y wasg, cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu â rhanddeiliaid.

Cynnig Canolbwynt Ymchwil, Arloesi a Gwella (R, I & I)

Adroddodd TO bod y cynnig R, I & I wedi cael ei gymeradwyo gan LIC. Cytunwyd ar y Swydd Ddisgrifiadau eisoes a chânt eu dosbarthu unwaith y bydd llythyr cynnig grant LIC wedi dod i law.

Newidiadau i'r Aelodaeth

Nododd TO hefyd y newidiadau o fewn swyddi Cabinet CBSC a'r geiriau caredig a dderbyniwyd gan y Cyng Liz Roberts yn cyfleu'r diolch mwyaf i'r BPRh, gan gydnabod yr ymrwymiad i agenda'r bartneriaeth.

Camau Gweithredu

- TO i gydnabod neges i BPRhGC

13 Digwyddiadau yn y Dyfodol:

13.06.2019 - Gweminar ynghylch CGI yn Glasdir, Llanrwst

Mae'r digwyddiadau hyn wedi'u gohirio gyda dyddiadau newydd wedi'u trefnu:

Gweminar 1: Caerdydd: 8 Gorffennaf 2019, 18: 00-19: 30

Gweminar 2: Llanrwst: 17 Gorffennaf 2019, 18: 00-19: 30

Hysbyswyd yr aelodau bod angen i unigolion ailgofrestru ar gyfer y dyddiadau newydd ar: <https://tinyurl.com/y62cq7d7> neu e-bostiwrch: sara.woollatt@audit.wales.

19.06.2019 - Digwyddiad Traws-Sector - Cymorth Cynnar a Chymorth Gwell, Caerdydd

25.06.2019 - Digwyddiad Symposiwm RCN Cymru

27.06.2019 - Gweithdy Trawsnewid CYP (wedi'i hwyluso gan IPC Oxford Brookes)

10.07.2019 - Cyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Trefnwyd digwyddiad i fyfyrion ar yr hyn a gyflawnwyd flwyddyn yn ddiweddarach ers lansio Cymru Iachach yn Venue Cymru, Llandudno, Gogledd Cymru. Gwahoddir 8 cynrychiolydd i fynychu o BPRhGC. 6 cynrychiolydd yn mynychu ar hyn o bryd:

- Bethan Jones Edwards
- Teresa Owen
- Cyng Bobby Feeley
- Charlotte Walton
- Cyng Joan Lowe
- Jenny Williams

Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2020 - 2023

Mae cam 2 y grant uchod bellach ar agor tan ddydd Llun 2 Medi 2019.

Camau Gweithredu

- Anfon gwahoddiad newydd i'r gweminar CGI yn Llanrwst I'r BPRhGC
- Enwebiadau ychwanegol digwyddiad 10.07.2019 i RW.